**COFNODION EOC-02-03 (min)**

**PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL**

**Dyddiad:** 13 Chwefror 2003

**Amser:** 9.30 am

**Lleoliad:** Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Yn bresennol:**

| | | |
|---|---|---|
| *Aelodau* | Ann Jones (Cadeirydd) | Dyffryn Clwyd |
| | David Melding | Canol De Cymru |
| | Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| | Carwyn Jones | Pen-y-bont ar Ogwr |
| | Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| | Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| | Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| | Owen John Thomas | Canol De Cymru |
| | | |
| *Swyddogion:* | Yasmin Hussein | Pennaeth yr Uned Polisi Cydraddoldeb |
| | Huw Jones | Yr Uned Polisi Cydraddoldeb |
| | Dr Ian Thomas | Yr Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol, Y Tîm Strategaethau Cymunedol |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| *Gwahoddedigion Sefydlog* | Will Bee | Comisiwn Hawliau Anabledd (DRC) |
| | Kate Bennett | Comisiwn Cyfle Cyfartal (CCC) |
| | Dhamendra Kanani | Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol |
| | | |
| *Cynghorwyr Arbenigol* | Elizabeth Jordan | Prifysol Caeredin |
| | Tim Wilson | Grwp Safleoedd Sipsiwn Caerdydd |
| | | |
| *Gwahoddedigion* | Richard Jones | Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain |
| | Paul Redfern | Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain |
| | Erica James | Dehonglydd yr Iaith Ddwylo Brydeinig |
| | Tracy Pycroft | Dehonglydd yr Iaith Ddwylo Brydeinig |
| | Joanne Naughton | Palendeipydd |
| | | |
| *Ysgrifenyddiaeth* | Claire Bennett | Clerc y Pwyllgor |
| | Lara Date | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**9.30 - 9.35 am**

**Eitem 1**

**Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant**

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth yr aelodau canlynol o'r pwyllgor Eleanor Burnham AC, Helen Mary Jones AC a Huw Lewis AC, o'r gwahoddedigion sefydlog daeth ymddiheurad oddi wrth Derek

Walker o Fforwm Pobl Hoyw, Lesbiaidd a Deurywiol, ac oddi wrth Karen Sinclair AC, Cadeirydd Grwp y Pleidiau ar faterion yn ymwneud â Phobl Byddar oherwydd nad oedd bellach yn gallu mynychu mewn perthynas ag Eitem 3 ar yr agenda.

**9.35 - 9.40 am**

**Eitem 2**

**Adroddiad y Gweinidog**

**Papur: EOC 02-03(p1)**

1. Gwnaeth y Gweinidog yr ychwanegiadau canlynol i'w adroddiad ysgrifenedig:

- Dylai'r Aelodau nodi bod yna fwriad i lansio'r broses ymgynghori ar Gynllun Cydraddoldeb Hiliol y Cynulliad ddiwedd mis Mawrth ond yr oedd yr amserlen yn dynn ac efallai ychydig yn rhy uchelgeisiol. Os nad oedd modd cyflwyno'r dogfennau ymgynghori mewn pryd yna byddai'n well gan y Gweinidog ohirio'r broses tan ar ôl yr etholiadau. Yr oedd ansawdd yn bwysicach na chyflymder, a sicrhawyd y pwyllgor gan y Gweinidog ei fod yn dymuno gweld proses ymgynghori gwerthfawr i gwmpasu pob maes.
- Yn y cyfarfod diwethaf cytunwyd bod angen tynnu sylw Llywodraeth y DU a chyrff datganoledig eraill at 'An Absolute Duty'. Yr oedd y llythyron bellach yn barod i'w hanfon, ac yr oedd yn bwriadu cwrdd ag aelodau o Weithrediaeth yr Alban i asesu sefyllfa cydraddoldeb yn yr Alban a'r penderfyniadau yr oeddent yn eu gwneud.
- Derbyniwyd llythyr oddi wrth y Swyddfa Gartref yn cadarnhau na fyddent yn parhau i edrych ar Ysbyty Sili fel llety ar gyfer ceiswyr lloches.

**9.40 – 10.35**

**Eitem 3**

**Cyflwyniad gan Gymdeithas Pobl Fyddar Prydain (CPFP) ar y defnydd a wneir o'r Iaith Ddwylo Brydeinig (IDB)**

**Papur: EOC 02-03(p2) - Yr Iaith Ddwylo Brydeinig**

Croesawodd y Cadeirydd Richard Jones a Paul Redfern o Gymdeithas Pobl Fyddar Prydain, a anerchwyd y cyfarfod gan ddefnyddio'r Iaith Ddwylo Brydeinig. Yr oedd y pwyllgor yn ddiolchgar am gymorth gyda'r cyfathrebu oddi wrth balendeipydd a dwy ddehonglydd yr Iaith Ddwylo Brydeinig, ac i Gyngor Pobl Fyddar Cymru, RNID ac eraill a fu o gymorth wrth wneud y trefniadau hyn. Dyma oedd prif bwyntiau'r cyflwyniad:

- CPFP ydoedd yr unig sefydliad Cenedlaethol ym Mhrydain o dan arweiniad pobl fyddar. Yn eu barn hwy y pwyllgor oedd yr unig un yn y DU oedd yn cydnabod neu yn derbyn yr Iaith Ddwylo Brydeinig.
- Dylid herio'r ffaith nad oed yr Iaith Ddwylo Brydeinig yn cael ei chydnabod yn swyddogol. Wrth addysgu pobl fyddar nid oedd cyfle i ddysgu drwy ddefnyddio'r Iaith Ddwylo Brydeinig ac nid oedd rhai ysgolion yn annog pobl i'w defnyddio. Byddai llawer o bobl fyddar yn gadael addysg llawnamser gyda gallu darllen plentyn tua 8 mlwydd oed, ac o ganlyniad yn methu cael gafael ar wybodaeth neu wasanaethau. Yr oeddent yn cael eu hallgáu o fywyd cymdeithasol, a diolchodd CPFP i'r Cynulliad am roi cyfle iddynt fedru cyflwyno'u hachos.
- Gwnaethpwyd cymhariaeth rhwng yr ormes yn y gorffennol yn erbyn yr iaith Gymraeg â'r sefyllfa gyda'r Iaith Ddwylo Brydeinig. Yr oedd polisi'r iaith Gymraeg yn fodel llwyddiannus yr hoffai Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain ei mabwysiadu, oherwydd dymuna weld yr Iaith Ddwylo Brydeinig yn derbyn yr un gydnabyddiaeth. Dywedodd Huw Edwards, y cyflwynydd teledu am hanes yr iaith Gymraeg 'Gall yr iaith Gymraeg oroesi gyda'ch cefnogaeth chi a'ch ewyllys da.' Yr oedd hyn yn wir am yr Iaith Ddwylo Brydeinig.
- Cafwyd rhai rhagdybiaethau ynghylch yr addysg ar gyfer plant byddar ac yr oedd angen eu chwalu. Gall 85-90 y cant o blant byddar fynychu ysgol arferol gan ddefnyddio cymhorthion ac offer yn ddi-drafferth gan mai problemau bach iawn sydd ganddynt. Ond yr oedd 10 y cant o'r plant yn methu manteisio ar gymhorthion clywed ac o ganlyniad yr oedd yn bryder mawr bod y sefyllfa yn effeithio ar eu haddysg a'u bod yn cael eu gwthio i'r neilltu.
- Yr oedd angen i'r plant hyn deall sut yr oedd iaith yn gweithio a meithrin sgiliau dwyieithrwydd (yn Saesneg a'r Iaith Ddwylo Brydeinig) er mwyn dysgu sut i fod yn ddinesydd llwyddiannus, i integreiddio ymysg eu teuluoedd eu hunain a bod yn weithwyr llwyddiannus. Byddai'r rhan fwyaf yn gadael ysgol â sgiliau cymdeithasol cyfyngedig iawn, yn methu â chyfathrebu gyda'u teuluoedd o gymharu a'u brodyr neu'u chwiorydd oedd yn gallu clywed. Rhaid cydnabod yr Iaith Ddwylo Brydeinig er mwyn bodloni anghenion y 10 y cant a fyddai fel arall yn cael eu hanghofio neu eu 'cuddio'. Yr oedd lle i'r Iaith Ddwylo Brydeinig yn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Byddai’n rhoi cyfle i bobl fyddar ac i bobl sydd yn gallu clywed i ddysgu'r Iaith Ddwylo Brydeinig gan arwain at fod plant byddar yn cael eu cynnwys mewn mwy o weithgareddau. Cyfeiriodd Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain at y darlun cymysg o ran agweddau yn y sector addysg yng Nghymru, er enghraifft yr oedd rhai ysgolion wedi gwrthod anfon eu plant i 'hwylddydd' Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain yn Ne Cymru y llynedd oherwydd efallai y byddent yn gweld yr iaith ddwylo.
- Yr oedd £1.5 miliwn yn cael ei wario ar ddarparu cymhorthion clywed digidol ac offer clywedegol yng Nghymru. Croesawyd hyn ac yr oedd o gymorth, ond yr oedd canran bach o bobl fyddar na fyddai'n elwa dim o'r arian hyn. Pe bai 10 y cant o'r arian hwn yn cael ei ddefnyddio ar 10 y cant o'r bobl yna byddai hynny'n gam cadarnhaol. Er enghraifft gallai hyfforddi pobl i fod yn diwtoriaid yr Iaith Ddwylo Brydeinig - yng Nghymru yr oedd prinder dehonglwyr iaith ddwylo. Yr oedd eu hangen i hyfforddi plant byddar a

phlant oedd yn gallu clywed yn ogystal, fel eu bod yn gallu cyfathrebu gyda'u cyfoedion ac athrawon byddar.

- Disgwyliwyd clywed cyhoeddiad yn San Steffan yn cydnabod yr Iaith Ddwylo Brydeinig, ond cafodd ei ohirio. Cynhelir seminar ym Mryste ym mis Mawrth i lansio siartr yr Iaith Ddwylo Brydeinig er mwyn cyhoeddi yr hyn yr oedd Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain yn bwriadu ei wneud er mwyn hyrwyddo anghenion defnyddwyr iaith ddwylo. Byddai'n gam da iawn gan y Cynulliad i fabwysiadu'r siartr gan felly rhoi arweiniad.
- Yn fyr felly, argymhellodd Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn; yn rhoi swm cyfatebol o 10 y cant o'r arian presennol sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau i bobl fyddar tuag at yr Iaith Ddwylo Brydeinig; cynnwys yr Iaith Ddwylo Brydeinig yn y Cwricwlwn Cenedlaethol; arwyddo siartr yr Iaith Ddwylo Brydeinig. Byddai hyn yn gymorth i roi terfyn ar allgáu pobl fyddar yn gymdeithasol ac yn gymorth i fynd i'r afael â than-gyflogaeth.

Dyma oedd prif bwyntiau'r drafodaeth:

- Diolchodd y pwyllgor i Gymdeithas Pobl Fyddar Prydain am eu cyflwyniad.
- Nid oeddent yn dymuno gweld arian yn cael ei dynnu oddi wrth wasanaethau eraill i bobl fyddar er mwyn cyfrannu at yr Iaith Ddwylo Brydeinig ond yn hytrach byddai'n well ganddynt weld yr Iaith Ddwylo Brydeinig yn cael cyllideb ychwanegol ei hunain.
- Yr oedd Lorraine Barrett AC eisoes wedi trafod dysgu'r Iaith Ddwylo Brydeinig a dulliau ar gyfer cychwyn dosbarthiadau yn y Cynulliad gyda Richard Jones. Yr oedd yn gobeithio dychwelyd at y trafodaethau hyn yn y dyfodol.
- Trafododd y pwyllgor y rôl y gallai'r cyfryngau ei chwarae wrth hyrwyddo'r Iaith Ddwylo Brydeinig. Er enghraifft drwy gyflwyno cymeriadau i’w rhaglenni er mwyn amlinellu'r profiadau a'r heriau sy'n wynebu pobl fyddar. Yr oedd Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain yn cefnogi'r awgrym, ond nodwyd bod amharodrwydd yn bodoli ymysg darlledwyr, esboniwyd hefyd bod darparu iaith ddwylo ar y sgrîn gan gwmnïau teledu yn cael ei rheoli gan ddeddfwriaeth a 2 y cant ohonynt oedd â iaith ddwylo ar y sgrîn. Yr oedd y rhan fwyaf o'r rhaglenni ar gyfer oedolion ar y BBC (ar y "sign zone") yn cael eu dangos ar ôl canol nos, felly nid oedd hyn yn addas ar gyfer y mwyafrif.
- Yr oedd yr Iaith Ddwylo Brydeinig yn defnyddio symbolau gwahanol i'r iaith ddwylo a ddefnyddir mewn gwledydd eraill, er enghraifft Iaith Ddwylo yr Unol Daleithiau, ond yr oedd yn bosibl ei haddasu er mwyn cyfathrebu â phobl o wledydd eraill. Yn wir yr oedd yn haws gwneud hyn na cheisio addasu'r cyfathrebu rhwng dwy iaith ar lafar.
- Yr oedd y Comisiwn Hawliau Anabledd (CHA) yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i fater yr Iaith Ddwylo Brydeinig ac yr oedd wedi cyflwyno'r mater i Lywodraeth y DU o dan Siartr yr UE ar Ieithoedd Lleiafrifol. Yr oedd yr Iaith Ddwylo Brydeinig yn iaith yn ei hawl ei hun, gyda'i thafodieithoedd ei hun, er enghraifft y gwahaniaethau bach rhwng Gogledd a De Cymru. Yr oedd angen ei chydnabod yn y cyd-destun hynny ac yr oedd y CHA yn cefnogi gwaith Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain.
- Yr oedd y Comisiwn Hawliau Anabledd yn ystyried datblygu cynllun yr Iaith Ddwylo Brydeinig yn ei waith a thrwy ei ddulliau cyfathrebu gan gynnwys gosod cysylltiad fideo i

oresgyn problemau'r byddar wrth ddefnyddio'r llinell gymorth dros y ffôn. Yr oedd yn bryder mawr bod prinder o ddehonglwyr iaith ddwylo a phalendeipyddion yn y DU. Ar ôl i'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd ddod i rym ym mis Medi, yr oedd yn rheidrwydd ar ysgolion a phrifysgolion i ddarparu dehonglwyr ar gyfer darlithoedd a seminarau. Nid oedd digon o bersonél ar gael i fodloni'r angen ac yr oedd, felly, yn esgus ar ran y sefydliadau dros beidio â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Yr oedd y Comisiwn Hawliau Anabledd yn ceisio mapio'r sefyllfa a gobeithiodd y byddai'r Cynulliad, drwy ELWa, yn rhyddhau arian er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa.

- Yr oedd Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain eisiau mwy o adnoddau hyfforddiant, a hyfforddi tiwtoriaid oedd y cam cyntaf cyn hyfforddi dehonglwyr. Efallai byddai angen rhannu'r arian rhwng y ddau, gan roi blaenoriaeth i'r tiwtoriaid. Y targed ar gyfer tiwtoriaid ledled y DU ydoedd tua 1,000, ac yng Nghymru y targed ydoedd tua 100. Ar hyn o bryd yr oedd tua 10 yng Nghymru. Yr oedd hyfforddiant wedi ei rannu'n ddwy rhan. I gychwyn ceir hyfforddiant i athrawon ac yn ail dysgu'r iaith, nid y symbolau'n unig. Byddai angen miliynau o bunnoedd er mwyn llenwi'r bylchau yn y ddarpariaeth.
- Yr oedd Jim Edwards o'r RNID yn bresennol fel sylwebydd yn unig ac fe'i gwahoddwyd i gymryd rhan yn drafodaeth. Yr oedd RNID yn cefnogi cynigion Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain. Yr oedd y Cynulliad wedi gwneud llawer i wella mynediad ac yr oedd cydnabod yr iaith ddwylo Brydeinig yn rhan ohono. Yr oedd y ffaith bod y mater yn cael ei drafod gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, yn hytrach na'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn bwysig oherwydd bod hyn yn cydnabod bod y mater yn effeithio ar fywydau pobl fyddar yn gyffredinol. Drwy'r Pwyllgor hwn byddai'n bosibl hyrwyddo gwaith a wnaed ar y mater ledled Cymru, mewn ysgolion, colegau ac ati. Yr oedd cynigion clir eisoes wedi eu cyflwyno yn barod i'w rhoi ar waith petai modd dwyn perswâd ar gyrff megis ELWa a'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes i fynd i'r afael â hwy. Yr oedd un enghraifft mewn perthynas â drafftio canllawiau ymarferol newydd ar gyfer y 'blynyddoedd cynnar' 0-2 mlwydd oed ac annog neges gadarnhaol ynghylch sgrinio plant yn gynnar a dewis yr opsiwn/opsiynau gorau ar gyfer y plentyn gan gynnwys yr Iaith Arwyddon Brydeinig. Disgwylir i glyw rhai plant ifanc byddar waethygu, ac o ganlyniad byddai sicrhau bod yr Iaith Ddwylo Brydeinig ar gael ar eu cyfer yn gymorth mawr iddynt yn y dyfodol.
- Yr oedd darparu gwybodaeth safonol yn bwysig iawn. Ar hyn o bryd nid oedd athrawon byddar yn gweithio yng Nghymru, ac ychydig iawn oedd yn gweithio ym maes addysg ar y cyfan, ac yr oedd yn ddigon posibl nad oedd neb yn gweithio ym maes iechyd ychwaith. Yr oedd y rhan fwyaf o rieni yn ystyried bod cael plentyn byddar yn drasiedi, felly yr oedd cael oedolion byddar llwyddiannus yn eu bywydau yn bwysig ar gyfer helpu plant i reoli eu bywydau a llwyddo.
- Nodwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol bod yr adolygiad presennol o'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn rhoi ystyriaeth i'r materion hyn, yn ogystal â chyfathrebu gyda'r grwpiau hynny oedd yn anodd eu cyrraedd yn y gymuned. Golyga’r stigma oedd ynghlwm wrth bod yn fyddar mewn rhai cymunedau nad oedd pobl yn cael diagnosis, gan gynnwys yn y cymunedau pobl dduon ac Asiaidd mewn rhannau eraill o’r DU. Dylid ystyried gwneud gwaith datblygu cymunedol. Yr oedd Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain

yn ymwybodol mai canran y bobl nad oeddent yn wyn eu croen oedd wedi cofrestru gyda'r gwasanaethau cymdeithasol yn Llundain oedd 51 y cant, yr oedd hyn yn broblem bosibl. Yr oedd Bwrdd Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain yn bwriadu cyfethol eu cynrychiolydd cyntaf o un o'r grwpiau ethnig er mwyn mynd i'r afael â hyn. Yr oedd RNID yn ymwybodol o 2 brosiect yng Nghymru oedd yn gweithio tuag at ddatblygu polisi yn y maes.

- Yr oedd yr agwedd tuag at ddefnyddio'r Iaith Ddwylo Brydeinig yn dibynnu a oedd pobl yn defnyddio'r model meddygol, lle y teimlai'r staff iechyd bod rhaid i bobl ymdrechu i glywed yn hytrach na dibynnu ar iaith ddwylo, neu'r model cymdeithasol a oedd yn rhoi cyfle cyfartal i bobl o ran gwybodaeth a gwasanaethau. Pan gâi plentyn byddar ei eni yr oedd y rhieni yn dysgu'r iaith ddwylo er mwyn medru cyfathrebu â'r babi. Wrth i'r plentyn dyfu byddai ef/hi yn dysgu'r iaith ddwylo ac yn dysgu siarad ar lafar – yr oedd yn anwiredd dweud na fyddai plentyn a oedd yn defnyddio'r iaith ddwylo yn medru siarad. Yr oedd babi sydd wedi dysgu yr Iaith Ddwylo Brydeinig wedi caffael sgiliau iaith ymhell cyn ei gyfoedion ac yn gyffredinol byddai hyn o gymorth iddynt wrth siarad. Yr oedd llawer o bobl yn ystyried bod yn fyddar yn drasiedi a chredent yn daer mai dysgu'r person byddar i siarad oedd yr unig ffordd y gallai'r person hwnnw integreiddio, ond nid dyna'r ffordd i sicrhau cydraddoldeb. Yr oedd yn bwysig bod plant yn cael dewis o'r Iaith Ddwylo Brydeinig a siarad ar lafar, oherwydd os nad oeddent yn gallu siarad byddent yn cael eu labelu'n fethiant.
- Diolchodd y Cadeirydd i bawb a fu ynghlwm wrth y cyflwyniad ac yr oedd yn sicr y byddai'r Pwyllgor yn dychwelyd at y pwnc yn y dyfodol. Estynnodd wahoddiad i bawb a fu'n cymryd rhan i roi adborth ar ôl y cyfarfod ynghylch y trefniadau ymarferol a dulliau i'w gwella yn y dyfodol.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Y pwyllgor i ysgrifennu'n ffurfiol at y Gweinidog yn gofyn iddo wneud cais i'r Gweinidog dros Gyllid am linell yn y gyllideb ar gyfer darparu'r Iaith Ddwylo Brydeinig.
- Byddai'r Grwp aml-blaid ar faterion yn ymwneud â'r byddar yn cwrdd â'r Gweinidog i edrych ar y niferoedd a'r costau cysylltiedig a'r ffordd ymlaen pe gynigir llinell yn y gyllideb.
- Byddai'r Pwyllgor hefyd yn edrych ar ffyrdd o gasglu mwy o wybodaeth ynghylch statws darparu'r Iaith Ddwylo Brydeinig yn yr Awdurdodau Addysg Lleol a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac unrhyw rwystrau presennol i'r ddarpariaeth megis prinder staff wedi'u hyfforddi yn yr Iaith Ddwylo Brydeinig.

**Cytunodd y pwyllgor i gael egwyl rhwng 10.35 a 10.45.**

**<u>10.45 – 11.30</u>**

**Eitem 4**

**Un Corff dros Gydraddoldeb**

**EOC 02-03(p3)**

1. Roedd Yasmin Hussein a Huw Jones yn bresennol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch ymarfer ymgynghori Llywodraeth y DU ar Un Corff dros Gydraddoldeb ac i roi cyfle i'r Pwyllgor wneud sylwadau. Croesawyd Yasmin Hussein fel pennaeth newydd Uned Polisi Cydraddoldeb y Cynulliad.
2. Mae Llywodraeth y DU wedi amlinellu tri dewis ar gyfer strwythur y corff: un corff cydraddoldeb, porth sengl neu gomisiwn cyffredinol.
3. Yn atodiad y papur pwyllgor, amlinellwyd canfyddiadau gweithdai ymgynghorol gyda chynrychiolwyr y chwe maes cydraddoldeb, yr undebau llafur, cyflogwyr y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol, rhai cyflogwyr o'r sector preifat, ynghyd â Bwrdd yr Iaith. Rhestrir y prif ganfyddiadau yn y papur, ond dyma grynodeb ohonynt:

- Roedd pobl yn cefnogi'r syniad o sefydlu un corff cydraddoldeb.
- Mynegwyd pryderon ynghylch materion ymarferol, gan gynnwys yr angen am sylfaen ddeddfwriaethol, er enghraifft trwy lunio Un Ddeddf Cydraddoldeb a thrwy gysoni deddfwriaeth yn gyffredinol.
- Mynegwyd pryderon ynghylch posibilrwydd colli hunaniaeth y meysydd cydraddoldeb penodol, ynghyd ag arbenigedd yn y meysydd hynny.
- Mynegwyd peth sinigiaeth ynghylch a fyddai digon o gyllid ar gael i ariannu'r corff. Byddai gofyn gwneud mwy nag uno'r holl rannau. Byddai angen gweledigaeth a sylfaen ariannol a fyddai'n adlewyrchu'i statws ehangach.
- Mynegwyd pryder ynghylch y ffordd y câi meysydd crefydd a rhywioldeb eu cefnogi rhwng mis Rhagfyr 2001 a 2006, sef y dyddiad cynharaf y bydd y corff newydd ar waith.
- Ffefrir mecanwaith cydraddoldeb newydd a fydd yn hunan-lywodraethol yng Nghymru ac a fydd yn meddu ar berthynas ffurfiol â'r Cynulliad.
- Trafodwyd yr iaith Gymraeg, gan ganolbwyntio'n bennaf ar a ddylai'r iaith fod yn seithfed maes cydraddoldeb neu'n fater trawsbynciol: daethpwyd i'r casgliad y dylid mynd i'r afael â'r iaith yn y naill ffordd a'r llall.
- Yn olaf, mynegwyd pryder ynghylch meithrin gallu ar lawr gwlad ledled Cymru. Nodwyd bod y Cynghorau Cydraddoldeb Hiliol yn fodel da.

1. Gofynnwyd am sylwadau oddi wrth gynrychiolwyr y Comisiynau statudol ac yna oddi wrth Aelodau'r Pwyllgor. Dyma sylwadau'r Comisiwn Hawliau Anabledd:

- Yn ôl grwpiau sy'n berthnasol i'r Comisiwn Hawliau Anabledd, mae egwyddor mynd ati i sefydlu'r corff newydd yn dda, ond mae'r amseriad yn anffodus.
- Ni wnaeth Llywodraeth y DU ddadlau'i hachos dros un corff cydraddoldeb yn dda yn ei dogfen ymgynghori. Seiliwyd ei dadl ar economeg yn hytrach nag ar gyfiawnder cymdeithasol. Roedd yn ymddangos mai hwylustod gweinyddol oedd wrth wraidd y ddadl

yn hytrach nag ymwybyddiaeth o ystyr cydraddoldeb. Roedd y ffaith na roddwyd sylw i Un Ddeddf Cydraddoldeb yn tystio i hyn.

- Bwriadwyd cyhoeddi mesur i gau'r bylchau mewn deddfwriaeth anabledd yn ystod yr hydref, ond mae'n debygol na fydd yn dod i rym tan fis Ebrill 2006. Roedd y pwerau newydd yn hanfodol ar gyfer pobl anabl, ond roedd yn debygol y byddent yn mynd ar goll yn ystod y broses weinyddol o sefydlu un corff. Roedd gwaith ymchwil yn Awstralia yn ategu'r posibilrwydd y byddai buddiannau pobl anabl yn mynd ar goll wrth roi'r trefniadau newydd ar waith, a byddai'n well gan y Comisiwn Hawliau Anabledd weld dull ffederal ar waith yn ystod y cyfnod cyn sefydlu un corff cydraddoldeb.
- Roedd rhai materion anabledd yn unigryw, e.e. rheoliadau sy'n nodi manylion darpariaeth i bobl anabl. Pe na châi'r arbenigedd honno'i chynnal, byddai'n peri problem i bobl anabl ac roedd y Comisiwn am gael sicrwydd y byddai buddiannau pobl anabl yn cael eu diogelu.
- Roedd y Comisiwn hefyd am weld corff hunan-lywodraethol ac adnoddau penodol i Gymru, ynghyd â fframwaith statudol rhyngddo a'r Cynulliad. Roedd hefyd am weld y Cynulliad yn cael ei gydnabod yn ystod y broses o benodi Comisiynydd i Gymru.
- Dylai'r strwythur newydd gydnabod materion ymarferol sy'n ymwneud â gweithio yng Nghymru. Yr oedd profiad comisiynwyr blaenorol yng Nghymru yn tystio i faint y dasg a dylid cymryd hynny i ystyriaeth, ynghyd ag oriau ychwanegol.

1. Roedd y Comisiwn Cyfle Cyfartal yn llongyfarch y Cynulliad ar gynnal digwyddiadau ymgynghori a oedd yn dangos bod y Cynulliad yn cymryd y mater o ddifrif. Roedd llawer o bobl wedi dod i'r digwyddiadau ac roedd yr adborth yn dangos bod consensws yn eu plith. Dyma'i brif sylwadau:

- Roedd yn rhaid i Gymru ystyried sut y gellid mynd i'r afael â'r holl feysydd cydraddoldeb gyda'i gilydd mewn corff newydd a chyda strwythur newydd a oedd yn briodol ar gyfer datganoli.
- Nid y materion a danlinellwyd gan Lywodraeth y DU yn ystod ei hymgynghoriad hi oedd bwysicaf yn ystod yr ymgynghoriad hwn.
- Rhaid seilio'r corff newydd ar Un Ddeddf Cydraddoldeb ond nid oedd Llywodraeth y DU o blaid cam o'r fath. Byddai'n anodd i gorff weithredu heb ddeddfwriaeth gyson a byddai hierarchaeth o ran cydraddoldeb yn sicr o ddod i'r amlwg pe na bai'r ddeddfwriaeth yn gyson.
- Roedd swyddogaethau'r corff hefyd yn bwysig. Nid oedd llawer o bobl yn y maes cydraddoldeb nad oeddent yn cytuno y dylai'r pwerau gorfodi fod yn berthnasol i bob maes cydraddoldeb penodol.
- Yr hyn a oedd yn dod i'r amlwg oedd na ddylid sefydlu corff ar wahân i Gymru, oherwydd mai San Steffan sy'n rheoli deddfwriaeth cydraddoldeb ac na ddylid dieithrio Cymru o'r broses honno, ond yr oedd angen corff datganoledig cryf yng Nghymru.
- Roedd y Comisiwn Cyfle Cyfartal a'r Comisiwn Hawliau Anabledd o blaid meithrin perthynas ffurfiol rhwng y cyrff cydraddoldeb a'r Cynulliad, ynghyd â chreu corff hunan-lywodraethol yng Nghymru a rhoi adnoddau penodol iddo. Pe bai angen cyngor ar y

Cynulliad ar gydraddoldeb mewn darpariaeth blynyddoedd cynnar dyweder, dylai'r cyrff cydraddoldeb feddu ar yr adnoddau angenrheidiol i ddarparu'r cyngor hwnnw. Ar hyn o bryd, nid oedd yn rhaid i'r comisiynwyr cydraddoldeb roi cyngor i'r Cynulliad, ac nid oedd yn rhaid i'r Cynulliad ofyn iddynt am gyngor.

1. Ategodd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol sylwadau'r Comisiwn Cyfle Cyfartal a'r Comisiwn Hawliau Anabledd:

- Roedd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn cefnogi bwriad y Gweinidog i ystyried y drafodaeth yn yr Alban ynghylch sefydlu un corff cydraddoldeb, a hynny oherwydd bod profiad yr Alban yn berthnasol i'r broses o roi corff o'r fath ar waith yng Nghymru.
- Nid oedd amcanion polisi cyhoeddus y Llywodraeth yn eglur yn yr ymgynghoriad - a oedd yn ceisio cefnogi polisïau cydraddoldeb neu'n canolbwyntio ar beri iddi fod yn haws i'r cyhoedd ddefnyddio gwasanaethau. Efallai y byddai'r mecanwaith a oedd yn cael ei gynnig ar hyn o bryd yn drysu ac yn cymhlethu'r sefyllfa.
- Roedd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn fodel o gorff a oedd wedi bodloni'i swyddogaeth gyhoeddus, ond roedd yn bwysig ystyried y gyllideb a'r adnoddau sy'n angenrheidiol ar gyfer model o'r fath. Swyddogaeth y rhwydwaith o Gynghorau Cydraddoldeb Hiliol oedd hyrwyddo cydraddoldeb hiliol ar lefel leol dan adran 44 y Ddeddf Diwygio Cysylltiadau Hiliol, ond nid oes cynnig gerbron i drosglwyddo adran 44 i feysydd cydraddoldeb eraill, ac roedd hynny yn peri pryder.
- Roedd ymgynghoriad y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn dangos nad oedd mwyafrif y bobl yn deall eu hawliau cydraddoldeb. Yr oedd yn bryd i'r bobl sy'n penderfynu sylweddoli hyn a chyfathrebu â'u hetholaethau yn fwy uniongyrchol.

1. Ategodd yr Aelodau yr angen i seilio'r corff newydd ar Un Ddeddf Cydraddoldeb. Nodwyd bod pob Comisiwn cyfredol yn seiliedig ar ddeddf. O lunio un ddeddf, câi'r meysydd cydraddoldeb newydd sylw mewn deddfwriaeth hefyd. Nodwyd bod rhai mudiadau gwirfoddol yng Nghymru wedi'i chael yn anodd i ymdopi â'r holl ddeddfwriaeth newydd a oedd yn cael ei chyflwyno ac y byddai fframwaith i'w huno yn ddefnyddiol.
2. Ategodd yr Aelodau ddyhead y cyrff cydraddoldeb i gael model wedi'i ddatganoli, ynghyd â rôl ffurfiol wrth benodi Comisiynydd i Gymru.
3. Nododd yr Aelodau y pryderon y gallai un maes penodol fod yn gryfach na'r lleill ac y gallai hynny effeithio ar y sefyllfa gyfredol, lle y mae'r comisiynau yn cydweithio'n gytûn.
4. Gofynnwyd sut y câi'r corff newydd ei hyrwyddo a sut y gellid codi ymwybyddiaeth ohono, ynghyd â pha fath o ddangosyddion perfformiad a gâi'u pennu.

- Dyma grynodeb o sylwadau'r Gweinidog:
- Yr hyn a ffefrir yw un corff cydraddoldeb sy'n seiliedig ar ddeddfwriaeth gynhwysfawr newydd. Byddai hynny'n helpu i fynd i'r afael â'r pryderon gwirioneddol ynghylch integreiddio'r meysydd cydraddoldeb newydd â'r meysydd sydd eisoes yn bodoli.

- Yr oedd angen sicrhau cydbwysedd rhwng sefydlu Comisiwn hunan-lywodraethol yng Nghymru a chynnal y berthynas â San Steffan, ynghyd ag arbenigwyr ar lefel y DU. Rhaid rhoi rôl ffurfiol i'r Cynulliad yn y corff newydd.
- Roedd y Gweinidog o'r farn bod y Comisiwn Coedwigaeth yn fodel da, gan fod y gangen wyddonol yn ganolog a'r gangen reoli, sef Menter Coedwigaeth, wedi'i datganoli i'r rhanbarthau. Credai'r Gweinidog fod model y Comisiwn Coedwigaeth yn rhoi'r math o annibyniaeth sydd ei hangen ar Gymru i reoli materion sy'n benodol i'r wlad.

**Pwyntiau gweithredu:**

- Dyddiad cau'r ymgynghoriad oedd 21 Chwefror felly penderfynodd y Pwyllgor baratoi ymateb, cytuno arno a'i gyflwyno drwy e-bost. Yn ei ymateb, byddai'r Pwyllgor yn derbyn y cyngor a roddwyd iddo gan y cyrff cydraddoldeb.

**11.30 –11.50**

**Eitem 5**

**Cynlluniau cydraddoldeb hiliol cyrff cyhoeddus yng Nghymru**

**EOC-02-03(p4) – Cynlluniau Cydraddoldeb Hiliol**

1. Rhoddodd Dharmendra Kanani o'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol wybod i'r Pwyllgor am y cynlluniau cydraddoldeb hiliol sydd ar waith mewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Dyma oedd prif bwyntiau'r cyflwyniad a'r drafodaeth:

- Roedd papur y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn rhoi braslun o'r Ddeddf (Diwygio) Cysylltiadau Hiliol (2000) yng Nghymru i ddangos i ba raddau yr oedd yr awdurdodau lleol wedi mynd i'r afael â hi. Roedd y ddeddfwriaeth yn bwysig er mwyn ad-ennill ffydd y cyhoedd ac er mwyn prif ffrydio cydraddoldeb mewn cyrff.

- Roedd yr ymateb i'r Ddeddf ddiwygiedig yn amrywio. Nid oedd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn derbyn pob cynllun cydraddoldeb hiliol oddi wrth yr awdurdodau lleol drwy statud, ond roedd y cynlluniau a ddaeth i law er gwybodaeth yn amrywio'n fawr.
- Swyddogaeth y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol oedd cadw cydbwysedd rhwng ei rôl hyrwyddo a'i bwerau gorfodi. Er bod dyletswydd arnynt i roi deddfwriaeth ar waith erbyn dyddiad penodol, roedd yn ymddangos nad oedd llawer o'r awdurdodau lleol yn cymryd y ddeddfwriaeth hon o ddifrif, o'i chymharu â deddfwriaeth megis deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Roedd y Comisiwn yn pryderu ynghylch yr ymateb.
- Roedd problemau penodol yn codi mewn ardaloedd gwledig, lle nad oes llawer o bobl o leiafrifoedd ethnig yn byw. Felly, nid oedd yr awdurdodau lleol yn yr ardaloedd hynny yn tybio bod y ddeddfwriaeth yn berthnasol iddynt. Nodwyd bod y strategaeth dai i bobl

croenddu a lleiafrifoedd ethnig wedi'i lansio ddwywaith oherwydd nad oedd digon o ymroddiad oddi wrth yr awdurdodau lleol yn sgil y lansiad cyntaf. Roedd hi'n bwysig goresgyn rhwystrau mewn ardaloedd lle nad oedd yr awdurdodau lleol yn tybio bod y ddeddfwriaeth yn berthnasol iddynt.

- Roedd y Llywodraeth yn bwriadu i'r sector cyhoeddus arwain drwy esiampl, ond nid oedd hynny'n digwydd. Yr oedd enghreifftiau o arferion da, yn enwedig yn y Cynulliad, ond yr oedd angen cysylltu â chymunedau lleiafrifoedd ethnig a sicrhau bod pobl gwyn hefyd yn rhan o'r trafodaethau. Yn ôl y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, roedd y sefyllfa gyfredol yn dangos bod ymrwymiad ar y lefel uchaf ond bod y rheolwyr canol yn llusgo'u traed. Cytunodd yr Aelodau y dylai hwn fod yn fwy nag ymarfer ar bapur.
- Nid oedd sylfaen ddigonol o dystiolaeth ar gael yng Nghymru ac roedd angen mynd ati i'w datblygu.
- Cynhaliwyd astudiaeth gychwynnol o tua 3,000 o awdurdodau lleol ledled y DU i weld a oeddent yn bodloni'u dyletswydd gyhoeddus. Yng Nghymru, cafwyd ymateb oddi wrth 14 allan o 105 ysgol, 10 allan o 14 sefydliad addysg uwch, 9 allan o 20 sefydliad addysg bellach, 4 allan o 8 awdurdod heddlu a 3 allan o 19 awdurdod iechyd.
- Yr oedd angen meithrin gallu yn y sector gwirfoddol hefyd, er enghraifft y gallu i ymateb i ymarferion ymgynghori ac i roi adborth ar ddarparu gwasanaeth ac ar feysydd polisi eraill. Nid oedd digon o amser a sylw wedi'i roi i feithrin sector gwirfoddol pobl croenddu, megis cefnogi anghenion lleol grwpiau penodol, e.e. menywod croenddu a menywod o leiafrifoedd ethnig yn y Gogledd.
- Byddai'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn fodlon darparu astudiaeth fwy manwl o berfformiad cyrff yng Nghymru. Cefnogwyd y syniad o adolygu'r sefyllfa ymhellach ac awgrymwyd y dylai'r Pwyllgor a ffurfir ar ôl yr etholiad fynd i'r afael â'r mater.

**Pwynt Gweithredu:**

- Byddai gofyn i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal nesaf ystyried cynnal adolygiad llawn o berfformiad cyrff cyhoeddus Cymru o ran rhoi ar waith eu dyletswyddau yn unol â'r Ddeddf (Diwygio) Cysylltiadau Hiliol.

**<u>11.50 – 11.55</u>**

**Eitem 6**

**Yr Adolygiad Sipsiwn Crwydrol: papur ar faterion sy'n ymwneud â llety**

1. Rhoddodd Dr Ian Thomas o'r Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol wybod i'r Pwyllgor am y prif wahaniaethau rhwng y llety a ddarperir yng Nghymru ac yn Lloegr, ac ynghylch y cynigion ar gyfer newid. Roedd y papur yn cyfrannu at adolygiad y Pwyllgor a dyma'r prif bwyntiau:

- Yr oedd Cymru wedi rhoi'r gorau i gyfrif carafanau ddwy waith y flwyddyn ond yr oedd Lloegr wedi parhau i wneud hynny. Felly nid oedd gan Gymru wybodaeth bwysig.
- Roedd Lloegr wedi defnyddio'r wybodaeth honno i lunio Grant Adnewyddu Safleoedd i Sipsiwn er mwyn adnewyddu nifer penodol o safleoedd. Yr oedd £17 miliwn ar gael dros dair blynedd. Y flwyddyn nesaf fyddai'r flwyddyn olaf ac yr oedd 14 awdurdod lleol wedi gwneud cais i gael grant.
- Cynhaliwyd arolwg manwl o'r ddarpariaeth yn Lloegr. Yr oedd yn ystyried ardaloedd lle y darperir safleoedd, gan gynnwys dyluniad safleoedd, diogelu rhag tân, rheoli safleoedd, y galw am safleoedd, ynghyd â'r safleoedd a ddarperir. Un o'r argymhellion oedd y dylid darparu mwy o safleoedd teithio a safleoedd aros brys. Eleni, roedd y grant yn adlewyrchu hyn oherwydd yr oedd modd i'r awdurdodau wneud cais i gael grant at y diben hwnnw.
- Yr oedd Swyddfa'r Dirprwy Brif Weindiog wedi cynnal ymgynghoriad ar y fframwaith arfaethedig i fynd i'r afael â gwersylloedd heb ganiatâd a byddai'r Cynulliad yn debygol o gynnal ymgynghoriad ar hyn maes o law.
- I gloi, dywedwyd nad oedd y gwahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr yn fawr nac yn anorchfygol. Awgrymwyd y dylid comisiynu arolwg tebyg i'r un a gynhaliwyd yn Lloegr, ond y dylai is-adrannau polisi'r Cynulliad gwrdd cyn hynny i weld a oedd gwybodaeth eisoes ar gael ac i benderfynu ar fanylion gwirioneddol i'w rhoi i gontractwyr ac ymchwilwyr.
- Nododd yr Aelodau y dylai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar yr hyn sydd orau i gymuned sipsiwn crwydrol Cymru wrth ystyried profiad Lloegr.
- Wrth ystyried y safleoedd a ddyrennir, roedd yn bwysig ystyried goblygiadau dyletswydd gyhoeddus y Ddeddf (Diwygio) Cysylltiadau Hiliol. Nodwyd nad oedd y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd dan Ddeddf Carafanau 1968 wedi'i hadfer, ond yr oedd Lloegr wedi cymryd camau trwy ddarparu mwy o adnoddau ar gyfer safleoedd. Efallai y bydd y Pwyllgor am argymell adfer y ddyletswydd hon, ond byddai angen deddfwriaeth sylfaenol er mwyn gwneud hynny.

**<u>11.55 – 12.00</u>**

**Eitem 7**

**Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

**EOC-01-03-min**

**Papurau i'w nodi:**

**EOC-02-03(p6) – Ymateb oddi wrth y Swyddfa Gartref ynghylch defnyddio tocynnau i gael budd-daliadau**

**EOC-02-03(p7) – Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid ynghylch gorsafoedd pleidleisio**

1. Nododd y Pwyllgor y papurau a chymeradwyodd gofnodion y cyfarfod blaenorol.
2. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 20 Mawrth 2003.

**12.00 – 12.30**

**Eitem 8**

**SESIWN BREIFAT**

**Adroddiad yr Adolygiad o Sipsiwn Crwydrol - adroddiad cynnydd**

**Papur: EOC-02-03(p8) – Adroddiad drafft ar yr Adolygiad o Sipsiwn Crwydrol.**

1. Penderfynodd y Pwyllgor gynnal sesiwn breifat am weddill y cyfarfod er mwyn ystyried ei adroddiad drafft, a hynny yn unol â Rheol Sefydlog 8.21(vi):

   "Gall Pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod:

   *(vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi; neu'n ymbaratoi i gael tystiolaeth gan unrhyw berson."*

2. Cytunodd y Pwyllgor i gynnal cyfarfod byr arall i ystyried ei adroddiad drafft cyn ei ystyried unwaith eto yn y cyfarfod ar 20 Mawrth.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.30pm.**